Archwilio Cymru
Audit Wales

# Archwiliad o Bennu Amcanion Llesiant – Cyngor Sir Fynwy

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3723A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant 4

Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Fynwy 5

Sut a phryd y pennodd y Cyngor ei amcanion llesiant 5

Yr hyn a ganfuom 6

Mae’r Cyngor wedi pennu ei amcanion llesiant yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae’n cysoni ei strategaethau a chynlluniau busnes allweddol i ategu’r broses o’u cyflawni, ond gallai gryfhau ei ddull ymhellach trwy gynyddu amrywiaeth y dinasyddion a gaiff eu cynnwys yn y dyfodol 6

Argymhellion 9

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a’r hyn y gwnaethom chwilio amdano 10

# Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny bennu a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf eu cyfraniad at gyrraedd pob un o'r saith nod llesiant yn y Ddeddf[1]. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

2 Rhaid i'ch Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant[2]. Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn, tan yn gynnar yn 2025[3].

3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. I gyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal[4].

4 Fe wnaethom ddylunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut y gallai da edrych.

5 Wrth ddylunio ein dull, fe wnaethom ystyried beth allem yn rhesymol ei ddisgwyl gan gyrff cyhoeddus ar hyn o bryd. Dylai cyrff cyhoeddus fod yn gyfarwydd bellach â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a bod yn ceisio'u rhoi ar waith mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn deall ac yn derbyn bod cyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth bennu eu hamcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi'r gwersi a ddysgwyd ganddynt ar waith a sut y gallant wella yn y dyfodol.

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

[2] Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau un flwyddyn cyn un o etholiadau'r Senedd ac yn diweddu un flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad canlynol y Senedd.

[4] Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Fynwy

6 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- egluro sut y gwnaeth y Cyngor roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith ar adegau allweddol yn y broses o bennu ei amcanion llesiant;
- darparu sicrwydd ynghylch y cwestiwn i ba raddau y gwnaeth y Cyngor roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth bennu ei amcanion llesiant; ac
- adnabod cyfleoedd i'r Cyngor wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

7 Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol 'i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd?'. Fe wnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A oedd y broses a roddodd y Cyngor ar waith i bennu ei amcanion llesiant wedi'i thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd a gwella'r modd y mae'n rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth bennu ei amcanion llesiant?

8 Fe drafodom ni amseriad yr archwiliad gyda'r Cyngor ac fe wnaethom deilwra'r modd y cyflawnwyd y gwaith i adlewyrchu ei amgylchiadau penodol.

9 Fe gasglom ni ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:

- adolygu dogfennau allweddol; a
- chynnal gweithdy gyda phobl allweddol a oedd yn rhan o bennu'r amcanion llesiant.

# Sut a phryd y pennodd y Cyngor ei amcanion llesiant

10 Dechreuodd y Cyngor waith ar bennu ei amcanion llesiant newydd yn ystod 2022 ac fe gymeradwywyd yr amcanion newydd gan y Cyngor llawn ym mis Ebrill 2023. Mae **Arddangosyn 1** yn disgrifio'r amcanion llesiant hynny.

11 Fe gyhoeddodd y Cyngor ei amcanion llesiant fel rhan o'i Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol, a oedd yn cynnwys ei ddatganiad llesiant sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Gellir gweld y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol ar wefan y Cyngor.

**Arddangosyn 1: Archwiliad o Bennu Amcanion Llesiant**

| |
|---|
| **Yn lle teg i fyw, gydag effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi cael eu lleihau.** |
| **Yn lle gwyrdd i fyw a gweithio, gyda llai o allyriadau carbon, ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.** |
| **Yn lle ffyniannus ac uchelgeisiol, gyda chanol trefi sydd yn hyfyw a bod busnesau yn medru tyfu a datblygu.** |
| **Yn lle diogel i fyw, gyda phobl yn meddu ar gartref a chymuned lle maent yn teimlo'n ddiogel.** |
| **Yn lle sydd wedi'i gysylltu, gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.** |
| **Yn lle i ddysgu, gyda phawb yn cael y cyfle i wireddu eu potensial.** |

# Yr hyn a ganfuom

## Mae'r Cyngor wedi pennu ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae'n cysoni ei strategaethau a chynlluniau busnes allweddol i ategu'r broses o'u cyflawni, ond gallai gryfhau ei ddull ymhellach trwy gynyddu amrywiaeth y dinasyddion a gaiff eu cynnwys yn y dyfodol

### Canfyddiadau

12 Canfuom fod y broses a roddodd y Cyngor ar waith i bennu ei amcanion llesiant wedi'i thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae amcanion llesiant y Cyngor wedi'u goleuo gan ddealltwriaeth dda am anghenion, risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol sy'n deillio o ystod eang o ffynonellau data. Fodd bynnag, mynegodd aelodau cabinet rwystredigaeth ynglŷn â diffyg data cenedlaethol wedi'i ddadgyfuno a fyddai'n rhoi mewnwelediad pellach i anghydraddoldeb ymhlith

gwahanol grwpiau o bobl. Dylai aelodau weithio gyda swyddogion i ganfod pa ddata pellach y mae ei angen arnynt a pha un a ellir ei gael.

13 Tynnodd y Cyngor ar ddata o weithgarwch ymgysylltu presennol hefyd, gan gynnwys barn a gasglwyd yn ystod proses etholiadau llywodraeth leol 2022 ac ymgynghoriad ar gyfer asesiad llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), i ddeall beth oedd yn bwysig i ddinasyddion. I adeiladu ar y data a datblygu'r amcanion llesiant, aeth y Cyngor ati wedyn i gynnal cyfres o weithdai a oedd yn cynnwys ystod o randdeiliaid. Yn dilyn y gweithdai, fe geisiodd y Cyngor farn rhai defnyddwyr gwasanaethau hefyd. Er enghraifft, fe ymwelodd ag ysgolion i gael barn disgyblion am feysydd trafod yn y gweithdy ar thema addysg a dysgu.

14 Ond nid yw'n glir o'r ddogfennaeth a welsom ni i ba raddau y gwnaeth y Cyngor ystyried a oedd y data ymgysylltu eilaidd yn cynrychioli'r boblogaeth lawn ac yn cwmpasu'r ehangder angenrheidiol o faterion. Nid yw'n glir ychwaith a wnaeth ymgysylltu dilynol mewn gweithdai a chyda defnyddwyr gwasanaethau ehangu amrywiaeth y bobl a gynhwyswyd yn y broses o bennu'r amcanion llesiant. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i gynyddu amrywiaeth y bobl a gaiff eu cynnwys, ond dylai hefyd ystyried sut y gall ddangos tystiolaeth o hyn. Er enghraifft, trwy ddogfennu ei ystyriaeth i gyflawnrwydd gweithgarwch ymgysylltu, sut y mae'r ymgysylltu hwnnw wedi helpu i lunio ei amcanion llesiant, ac adnabod y rhannau hynny o'r boblogaeth lle mae angen gwaith pellach.

15 Er bod yr amcanion llesiant wedi'u pennu yng nghyd-destun Cynllun Pum Mlynedd, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i edrych y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol ac mae'r amcanion wedi'u bwriadu i wella Sir Fynwy dros y tymor hwy.

16 Mae'r amcanion llesiant yn drawsbynciol o ran eu natur ac wedi'u bwriadu i lywio gweithgarwch ar draws y sefydliad. Mae'r ymrwymiadau sy'n tanategu'r amcanion wedi'u cydgysylltu hefyd. Mae'r dull integredig hwn yn hybu cydberchnogaeth ar yr amcanion ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddiaethau gydweithio i'w cyflawni.

17 Ceir dealltwriaeth lefel-uchel am y berthynas rhwng yr amcanion llesiant a'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio'i gyflawni ac am gyfleoedd pellach i gydweithio. Er enghraifft, fe ddatblygodd y Cyngor ei amcanion llesiant fel eu bod yn gyson ag amcanion llesiant drafft BGC Gwent ac yn helpu i gyfrannu atynt. Bydd angen i bartneriaid y BGC gydweithio i gyrraedd nodau cyfunol y rhanbarth. Ar adeg ysgrifennu, nid oedd BGC Gwent wedi cyhoeddi ei gynllun llesiant eto, ond dylai'r ffocws a fframwaith polisi cyffredin y mae'n eu darparu gryfhau'r cyfle ar gyfer gweithio a dysgu cydweithredol. Mae grŵp cyflawni lleol yn ei le i ddatblygu a chydlynu camau gweithredu tuag at amcanion trawsbynciol yn Sir Fynwy.

18 Mae amcanion llesiant y Cyngor yn gyson hefyd â'r nodau llesiant cenedlaethol ac 'Egwyddorion Marmot', set o egwyddorion arweiniol sy'n fframwaith ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd, y mae BGC Gwent a'r cyrff sy'n aelodau ohono wedi'u mabwysiadu. Mae deall achosion sylfaenol anghydraddoldeb a mynd i'r afael â hwy'n sylfaenol i Egwyddorion Marmot. Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn i ymyrryd yn gynnar ac atal yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol, gydag ystod o gamau gweithredu sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael ag angen byrdymor gan hefyd geisio

atal materion yn y dyfodol. Er enghraifft, camau gweithredu sy'n gysylltiedig â chynorthwyo disgyblion o deuluoedd incwm isel i wireddu eu llawn botensial. Mae cyllideb 2023-24 hefyd yn cynnwys enghreifftiau o'r Cyngor yn ariannu gwasanaethau ataliol.

19 Er bod y Cabinet wedi ceisio datblygu ei Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol a chyllideb 2023-24 ar y cyd, roedd oedi cyn sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor i'r Cynllun yn golygu bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'r gyllideb wedi cael eu pennu cyn mabwysiadu ei amcanion llesiant newydd. Mae'r Cyngor wrthi yn awr yn adolygu ei CATC i sicrhau ei fod yn gyson â'r ymrwymiadau a nodir yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddiweddaru strategaethau ategol a chynlluniau busnes gwasanaethau i adlewyrchu'r amcanion newydd a rhoi cymorth i'w cyflawni.

20 Mae'r Cyngor yn cydnabod heriau cyflawni ei Gynllun yng nghyd-destun ansicrwydd economaidd cyfredol. Mae'r galw am wasanaethau'n cynyddu, eto mae angen arbedion sylweddol dros gyfnod y CATC – bydd hyn yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant. Dylai adroddiadau monitro'r gyllideb a diweddariadau i'r CATC ystyried effaith barhaus sefyllfa ariannol y Cyngor ar yr amcanion llesiant fel bod y Cyngor yn gallu blaenoriaethu ei adnoddau mewn modd priodol.

21 Mae gan y Cyngor ystod o fesurau a cherrig milltir i fonitro cynnydd yn erbyn ei Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae'r fframwaith mesurau sy'n cyd-fynd â'r Cynllun yn cynnwys data sylfaenol a thargedau tymor canolig ac mae targedau interim yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd y targedau interim hyn yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau busnes gwasanaethau i alluogi'r Cyngor i dracio cynnydd tuag at ei dargedau tymor canolig. Nid oes graddfeydd amser ar gyfer y camau gweithredu yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol ar hyn o bryd felly nid yw'n glir erbyn pryd y mae'r Cyngor yn bwriadu cwblhau'r rhain. Ond byddem yn disgwyl i ragor o fanylion ynghylch graddfeydd amser gael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau busnes wedi'u diweddaru.

22 Mae gwaith pellach yn yr arfaeth i ddadgyfuno rhai o'r mesurau fel bod y Cyngor yn gallu cael dealltwriaeth well am yr effaith ar grwpiau penodol o bobl a thargedu camau gweithredu yn y dyfodol mewn modd priodol. Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys mesurau eraill nad yw'r Cyngor yn dylanwadu arnynt yn uniongyrchol, ond sy'n gysylltiedig â'r amcanion, e.e. disgwyliad oes iach. Bydd monitro'r mesurau hyn yn darparu mewnwelediad i ganfod a yw camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan y Cyngor a chyrff eraill yn cael effaith eang a chadarnhaol.

23 Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i fonitro'i gynllun corfforaethol a'i amcanion llesiant trwy ei broses hunanasesu flynyddol a'i waith i fonitro'i gynlluniau busnes. Mae Dangosfwrdd ar gyfer y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol yn galluogi'r broses hon i ddigwydd. Byddwn yn gwneud gwaith yn ddiweddarach eleni i asesu effeithiolrwydd trefniadau cynllunio busnes a rheoli perfformiad y Cyngor.

24 Mae'r Cyngor wedi adnabod rhai meysydd lle gallai wneud gwaith pellach i gryfhau'r ffordd y mae'n pennu amcanion llesiant yn y dyfodol. Er enghraifft,

gwella'r modd y mae'n cynnwys amrywiaeth fwy o'r boblogaeth a chaniatáu amser ychwanegol ar gyfer rhai agweddau ar y broses. Byddai o fudd i'r Cyngor ddogfennu'r gwersi hyn er mwyn iddynt allu cael eu defnyddio i oleuo cylchoedd pennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

**Adeiladu ar y cynnydd hyd yma**

A1 Dylai'r Cyngor adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant trwy:

- ddefnyddio barn amrywiaeth lawn y boblogaeth i oleuo'r amcanion a gallu dangos yn fwy eglur sut y mae cynnwys rhanddeiliaid wedi helpu i lunio'r amcanion llesiant;
- cwblhau gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i gysoni'r CATC, strategaethau a chynlluniau busnes â'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol fel eu bod o gymorth i gyflawni'r amcanion llesiant; a
- sicrhau bod eglurder o ran sut y gallai targedau arbedion a mwy o alw am wasanaethau effeithio ar gyflawni'r amcanion llesiant trwy adroddiadau monitro'r gyllideb rheolaidd a diweddariadau reolaidd i'r CATC.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn y gwnaethom chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn y gwnaethom geisio'i ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i roi arweiniad i'n gwaith casglu tystiolaeth. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u defnyddio'n flaenorol yn ein harchwiliadau o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac a oleuwyd gan gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Nid rhestr wirio yw'r rhestr, ond yn hytrach set enghreifftiol o nodweddion sy'n disgrifio sut allai da edrych.

**Arddangosyn 3: cwestiynau allweddol a'r hyn y gwnaethom chwilio amdano**

| |
|---|
| **I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd?** |
| **Cynllunio: A gafodd y broses a roddodd y corff ar waith i bennu ei amcanion llesiant ei thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?** |

| | |
|---|---|
| **A yw'r corff wedi defnyddio data a chudd-wybodaeth arall i ddeall angen, risgiau a chyfleoedd a sut allent newid dros amser?** | • Mae gan y corff asesiad eglur a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i oleuo dealltwriaeth y corff am yr angen 'fel y mae'/byrdymor.<br>• Mae'r corff wedi pennu amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda am angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn debygol o fod yn deillio o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>– Asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>– Asesiadau poblogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol<br>– Canlyniadau ymarferion cynnwys/ymgynghori lleol<br>– Monitro gwasanaethau a chwynion am wasanaethau<br>– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol<br>– Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cymru ac Asesiadau Ardal<br>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel ei fod yn gallu mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau rhwng y cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r corff wedi cynnwys eraill yn y broses o ddatblygu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i'w helpu i ddethol ei amcanion llesiant. Mae'r gweithgarwch cynnwys hwnnw – boed yn weithgarwch cynradd, eilaidd neu gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae gweithgarwch cynnwys yn adlewyrchu arfer da a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith ehangach?** | • Mae'r amcanion llesiant wedi'u bwriadu i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.<br>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u bwriadu i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda ynghylch sut y mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar yr hyn/yn ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio'i gyflawni a chyfleoedd i gydweithio. |

| | |
|---|---|
| **A yw'r corff wedi dylunio'r amcanion i ddwyn manteision tymor hwy, gan daro cydbwysedd â diwallu anghenion byrdymor?** | • Mae'r corff wedi pennu amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u bwriadu i lywio gweithgarwch ar draws y sefydliad.<br>• Mae'r amcanion wedi'u bwriadu i ddiwallu anghenion byrdymor a thymor hwy. Lle pennir amcanion dros ffrâm amser fer neu ganolig, fe'u pennir yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |
| **Darparu adnoddau a chyflawni: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer yr amcanion llesiant?** | • Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a chanolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau a risgiau tymor hwy a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.<br>• Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i ddwyn manteision ataliol, lle disgrifir y rhain yn ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion hwy?** | • Mae'r corff yn defnyddio'i wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a threfniadau cydweithredol i wneud yn siŵr y gall wireddu uchelgeisiau trawsbynciol. |

| Monitro ac adolygu: A yw’r corff wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut y mae’n rhoi’r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth bennu ei amcanion llesiant? | |
|---|---|
| **A yw’r corff wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?** | • Mae mesurau perfformiad wedi’u bwriadu i adlewyrchu’r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. trwy ganolbwyntio ar ddeilliannau sy’n croesi ffiniau adrannol/sefydliadol ac yn dwyn manteision lluosog (gan gynnwys rhai ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Ceir ‘edefyn aur’ a fydd yn galluogi’r corff i adrodd mewn modd eglur a thryloyw ar gynnydd tuag at gyflawni’r amcanion. |
| **A yw’r corff yn ceisio dysgu o’r modd a gwella’r modd y mae wedi rhoi’r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth bennu ei amcanion llesiant?** | • Mae’r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella’r modd y mae’n rhoi’r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.<br>• Mae’r corff wedi dysgu o bennu amcanion llesiant blaenorol ac o roi’r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella’r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.<br>• Mae’r corff wedi neu’n bwriadu myfyrio ynghylch sut y mae wedi rhoi’r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn y cylch pennu amcanion llesiant hwn. |

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.